



Ein cyf/Our ref qA1263575

At Benaethiaid Cynllunio

26/04/2017

Annwyl Gyfaill

Mae'r llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth ichi am y newidiadau i broses Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (EIA) ym maes cynllunio gwlad a thref.

Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") wedi'u gosod ger bron y Cynulliad Cenedlaethol a dônt i rym ar 16 Mai. I'w gweld, ewch i:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=18933>.

Mae Rheoliadau 2017 yn cymryd lle Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016"). Rhestrir y prif newidiadau isod. Caiff y Llawlyfr Rheoli Datblygiadau ei newid i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd ac i roi rhagor o arweiniad ichi maes o law.

Sgrinio

Mae proses sgrinio datblygiadau "atodlen 2" wedi'i newid. Mae'n cynnwys newid yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno gyda chais sgrinio (Rheoliad 6) a'r hyn y mae gofyn i awdurdod cynllunio lleol (ACLI) ei ystyried wrth gynnig barn sgrinio (Rheoliad 5). Mae'r cyfnod o 21 niwrnod a ganiateir ar gyfer cynnig barn yn para, ond os cytunir ar estyniad, caniateir hyd at 90 diwrnod cyn bod yn rhaid cynnig barn.

Datganiadau amgylcheddol

Mae angen darparu mwy o wybodaeth mewn datganiad amgylcheddol (Rheoliad 17 ac Atodlen 4). Ceir gofynion newydd hefyd sy'n effeithio ar bwy sy'n paratoi ac yn ystyried datganiad amgylcheddol (Rheoliadau 4 ac 17).

Cyhoedduswydd ac ymgynghori

Mae'r gofynion ynghylch cynnal ymgynghoriad wedi newid. Bydd angen o leiaf cyfnod ymgynghori o 30 niwrnod, cyhoedduswydd ar-lein a bod darnau penodol o wybodaeth ar gael yn electronig (Rheoliad 19 a newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012).

Penderfynu

Ceir darpariaethau manwl yn Rheoliadau 2017 ynghylch y drefn y mae'n rhaid i ACLI ei dilyn wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio (Rheoliad 25) a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu wrth wneud penderfyniad (Rheoliad 28). Mae gofyn hefyd rhoi mwy o wybodaeth fanylach i'r cyhoedd ar ôl gwneud penderfyniad (Rheoliad 29).


Trefniadau pontio

Mae Rheoliadau 2017 yn gwneud y darpariaethau pontio canlynol, fel bod Rheoliadau 2016 yn parhau'n berthnasol o dan rai amgylchiadau.

- Os bydd ymgeisydd wedi gofyn am farn gwmpasu neu wedi cyflwyno datganiad amgylcheddol cyn 16 Mai, bydd y cais, apêl neu gamau gorfodi'n para o dan Rheoliadau 2016.
- Os bydd ymgeisydd wedi gofyn am farn sgrinio a bod un wedi'i mabwysiadu cyn 16 Mai, bydd Rhannau 1 a 2 Rheoliadau 2016 yn para mewn grym, a Rhannau 3 i 7 a 9 i 13 Rheoliadau 2017 hefyd yn berthnasol.

Cyflwynir rhagor o wybodaeth am y newidiadau yn ystod y gweithdai rheoli datblygu a gynhelir ym mis Mai.

Yn gywir



Neil Hemington
Prif Gynllunydd / Chief Planner